

Trobwynt yn hanes cyhoeddi llyfrau Cymraeg

gan D Ben Rees

Y mae diddordeb gan bawb ohonom sy'n darllen y *Casglwr* yn hanes a helynt y fasnach ddigon bregus ar hyd y canrifoedd o gyhoeddi llyfrau yn yr iaith Gymraeg. Daliwn i ddisgwyl cyfrol boblogaidd yn cronico'r saga, o'r llyfr Cymraeg cyntaf a welodd olau dydd hyd y toeth a ddaw allan heddiw. Maentumiaf fod y flwyddyn 1938 yn bwysig iawn yn hanes cyhoeddi llyfrau Cymraeg, a hynny am nifer o resymau. Yn 1938 y daeth Undeb Cyhoeddwr a'r Llyfrwerthwyr Cymraeg i fodolaeth gyda Howel Evans o Wasg y Brython yn Gadeirydd a'r bardd E. Prosser Rhys o Wasg Aberystwyth yn Ysgrifennydd. Roedd hwn yn symudiad pwysig.

Ymgyrch gwerthu llyfrau yr Urdd

Pwysig hefyd oedd ymgyrch Urdd Gobaith Cymru i werthu llyfrau Cymraeg ar hyd a lled Cymru. Yn Ymgyrch 1938 gwerthwyd dros dair mil tri chant a naw o lyfrau Cymraeg. Roedd R. E. Griffith, gŵr hirben, wrth ei fodd. Ef fu'r trefnydd, a bu ei ddyllanwad ef ym myd cyhoeddi llyfrau Cymraeg yn bellgyrhaeddol. Y nod oedd ganddo oedd i bob Adran geisio gwerthu cant o lyfrau yr un. Ac fe lwyddodd deg Adran i gyrraedd y nod, yn wir gwnaeth Adran y Barri, o dan arweiniad Miss Cassie Davies, y wrth o werthu 508 o lyfrau. Y mae rhai ohonom sy'n cofio Miss Cassie Davies yn gwybod am ei brwdfrydedd heintus. Bu'n garedig iawn ei sylwadau wrthef ar ôl yr oedfaon a gyhelid yng nghapel ei mebyd, Blaencaron a chwith meddwl for yr awdurdodau Henaduriaethol wedi ei gau ddechrau'r flwyddyn. I ba beth y bu'r golled hon? Cynnyrch ardal Tregaron ar ei gorau oedd Cassie Davies, merch dalentog, anhygoel o ddeallus fel eraill o'i theulu. Tarawodd hi ar y cynllun o gael deg aelod o'r Pwyllgor lleol yn y Barri yn gyfrifol am werthu deg llyfr fel cnewyllyn y cynllun. Yna perswadiodd ddeuddeg o Brifathrawon i hybu'r fenter yn nhref y Barri, a chafodd gymorth gwerthfawr gan ferch ddawnus arall yn Ysgol y Merched, sef Miss Huldah Basset. Gwerthwyd 85 o lyfrau fel hyn. A'r trydedd ffrynt oedd y capel Cymraeg, y sefydliad pennaf ers canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg dros ledaenu gwerthiant llyfrau Cymraeg. Bu gwerthiant eithriadol *Canuon Ffydd* yn brawf pa mor effeithiol ydyw'r capeli o hyd pan ddaw'r cyfle. A'r capeli oedd yn gyfrifol am lwyddiant gwerthiant Adran Brynman, pentref y glŵyr yr adeg honno, yn ngogledd Sir Gaerfyrddin. Yno argraffwyd mil o slipiau a'u dosbarthu ym mhob tŷ yn y pentref capelgar. Cyhoeddwyd yr ymgyrch am Suliau yn oedfaon pob un o'r Capeli Cymraeg. Ni wrthododd neb o'r trigolion a gafodd gyfle i brynu llyfr yn ôl yr arweinydd, D. L. Jones. Gwerthwyd 351 o lyfrau.

Blaenau Ffestiniog yn gwerthu 325 o lyfrau

Ardal chwarelyddol oedd Blaenau Ffestiniog cyn yr Ail Ryfel Byd. Ac yr oedd y gwerthiant yn y fan honno yn nwylo Meirion Jones. Gwerthwyd 325 o lyfrau. Canmolai ef drigolion y dref a darogan y gellid cael ymgyrch fel hyn yn flynyddol.

Yn Edern, gwlad Llŷn, cafwyd helpa dda



R. E. Griffith.

arall o dan hudoliaeth Olwen Hughes Roberts. Yr oedd ganddi hi ieuencid o'i phlaid, sef deg o ferched oddeutu'r pymtheg oed i grwydro o dŷ i dŷ ar feisic a throed i arddangos y llyfrau a chasglu'r archebion. Gwerthwyd yn Edern 265 o gopiau.

Yn Llanelli yr oedd y dasg yn nwylo'r anfarwol Miss Olwen Williams, chwaer y Sosialydd Cristnogol, y Parch Llewellyn Williams a ddaeth yn Aelod Seneddol Abertileri. Gwerthwyd yn nhre'r sobsan 250 o lyfrau. Gwnaeth ardal Maesteg yn dda; gwerthwyd 155 gan y tim yr oedd y Parchedig E. J. Williams yn ei ofal, ac ym mhentref Caerau gerllaw yr oedd y glöyn byw, Miss Norah Isaac yn ysbrydoli ei chynorthwyr, a gwerthwyd yno 119.

Y Western Mail yn gofyn am farn y darllenydd

Dyna gyfanswm o 274 ym Maesteg a'r cyffiniau. Gwerthwyd 130 yn Hirwaun ar ben uchaf Cwm Cynon, 112 ym mhentref Felinfach, Ceredigion a 108 yn Tegryn. Pa lyfrau, tybed a werthodd orau? Mae gennym dystiolaeth am y ddau lyfr a werthodd orau, a syniad o rai o'r gweddill. Gwnaeth y *Western Mail* ymdrech i gael barn y darllenydd am y llyfrau Cymraeg gorau y cyfnod hwnnw, a'r canlyniad, chwe chyfrol yn cael sylw dyladwy. (Ac mae pob un o'r chwech ar fy silffoedd).

Rhif 1 oedd W. J. Gruffydd, *Cofiant Owen Morgan Edwards*. Clatur o gyfrol. Gwerthwyd 16 copi o'r gyfrol hon yn ardal Brynrefail, Arfon trwy ymdrech chwarelwr o'r enw Thomas Williams. Llwyddodd ef i berswadio nifer o'i gyd-chwarelwr i dalu swllt am bum wythnos er mwyn pwrcau'r gyfrol, a ddeil yn fytholwydd. Yr ail gyfrol oedd cyfrol Kate Roberts, *Ffair Gaeaf a Straeon Eraill* ond Rhif 3 yn rhestr y *Western Mail*, ond gwerthwyd dros 100 o gopiau yn yr ymgyrch lyfrau, felly hefyd o gyfrol O. M. Edwards. Yn rhestr y *Western Mail* dyma'r drefn: ar ôl cyfrol W. J. Gruffydd; ii) T. Gwynn Jones, *Dydd Gwaith*; iii) Kate Roberts, *Ffair Gaeaf*; iv) Saunders Lewis, *Buchedd Garmon*; v) T. H. Parry-Williams, *Synfyfyrion*; a vi) E. Cefni Jones, *Cofiant Gwili*.

Ond roedd eraill yn y maes, yn galw sylw at y farchnad a'r Wasg. Penderfynodd John

Pierce, awdur ei hun, o Undeb Môn o Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg fynd ati i drefnu cyfarfod i ystyried sefyllfa'r farchnad Gymraeg. Roedd lleihad mawr wedi digwydd yng ngwerthiant llyfrau Cymraeg ar Ynys Môn rhwng 1918 a 1938. Yn 1918 yr oedd llyfrwerthwyr Cymraeg ym Mhorthaethwy, Llangejni, Caergybi, Llanerchymedd ac Amlwch. Erbyn 1938 yr oedd hi'n dra gwahanol, ac un siop yn unig yn haeddu cael ei galw yn siop lyfrau Cymraeg ar yr ynys, sef siop Edward Williams a'i chwaer yn Llangejni. Yno y cyrchai pob llyfrbryf o Fôn. Yr oedd anwybodaeth y llyfrwerthwyr cyffredin o'r farchnad Gymraeg yn anhygoel. Pery o hyd y diffyg hwn er fod y Cyngor Llyfrau wedi chwyldroi'r sefyllfa i raddau mawr. Dywedid yn 1938 am siopwr yn anfon archeb am lyfr o'r enw *Mari Lewis*. Ni chlywsai erioed am y nofel *Rhys Lewis* o waith Daniel Owen. Ond yr oedd canolfannau ar gael yr adeg honno fel heddiw; Dewi Meirion ym Mangor, J. R. Morris a'i siop anhygoel yng Nghaernarfon; Jack Edwards yn stryd fawr, Aberystwyth a Griffith Evans yn gwyllo buddiannau Siop John Evans, Caerdydd i enwi ond y cyfarwydd. Ond yr oedd y farchnad Gymraeg yn cynyddu ac amrywiaeth o lyfrau yn dod allan o wythnos i wythnos ar gyfer y Cymry Cymraeg. Dyma fraslun o'r arlwy y flwyddyn honno.

1. R. J. Jones (Prestatyn): *Odlau'r Paith*, Brython. (Pris 2/-). Nid yw yn fy meddiant. Yn barod i'w brynu'n ail-law.
2. John Pierce: *Tri Mewn Trybini*, Brython. (Pris 2/6). Yn fy meddiant ers dyddiau plentynod.
3. *Blewyn o Ddybaco a Straeon ac Ysgrifau Buddugol Eraill Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd*, Brython. (Pris 1/-). Gwerthfawr a phrin. Ceir gwaith Sarnicol, John Davies, T. J. Morgan (tad Rhodri Morgan, y Gweinidog Cyntaf yn y Cynulliad 2000-2003) a D. J. Williams, Abergwaun yn y gyfrol. Gwerth £5.00 heddiw.
4. Daniel Owen: *Y Siswern*, argraffiad newydd o wasg y Brython am hanner coron.
5. J. M. Edwards: *Cerddi Pum Mlynedd (1933-37)*, Gomer. Pris 2/6. Heddiw £3.00
6. J. H. Jones: *Gwin y Gorffennol*, Hughes a'i Fab. Pris 3/6. Heddiw £5.00
7. Jane Ann Jones: *Storiau Hen Ferch*, Gwasg Aberystwyth. Pris 2/6. Heddiw £6.00.
8. Ifor Williams: *Canu Aneurin*, Gwasg Prifysgol Cymru. Pris £15 heddiw. Gorchestol o gyfrol ysgolheigaidd.
9. Ben Davies: *Sion Gymro*, Gwasg Gomer, 1938. Hoffwn dalu £3.00 am gyfrol oedd yn costio 2/6 yn 1938.
10. J. T. Jones: *Christmas Evans*, Gomer. Pris 1/- Gwerthfawr am £2.00 heddiw.
11. E. H. Carr (Cyfieithiad Stephen J. Williams): *Cydberthynas y Gwledydd Wedi'r Cyfamodau Heddwch*. Gwerth ei phwrcau. Ni wela y pris gwreiddiol ond mae'n rhaid canmol y cyfieithiad gwych. Bathodd Stephen J. Williams eiriau newydd yn y gyfrol hon sydd wedi ennill eu lle yn ein geirfa fel 'holiadur' am *questionnaire*. Cymreigiodd lu o eiriau Saesneg fel 'confesiwn', 'creisis' (argyfwng yn well gair); 'pwer'. 'pasiffig', 'smyglo', 'tunelliaeth' am *tonnage* a 'Donaw' am afon fawr y Danube.

(Parhad ar dudalen 13)